Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales

MAPIAU MAPS
LLGC NLW

Y map hynaf yng nghasgliad y Llyfrgell, map Ptolemaidd o Ynysoedd Prydain, a brintiwyd ym 1486
The oldest map in the Library's collection, a Ptolemaic map of the British Isles, printed in 1486 (map00001)

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

MAPIAU

Gyda thros filiwn o fapiau, atlasau a dyluniadau technegol, mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru y casgliad cartograffig mwyaf yng Nghymru, ac un o'r casgliadau mwyaf ym Mhrydain. Mae'r casgliad wedi tyfu ers sefydlu'r Llyfrgell, trwy roddion hael, pwrcasiadau ac adnau cyfreithiol.

Y mae'r casgliad yn cynnwys ystod eang o ddeunydd, boed wedi eu cyhoeddi, neu eitemau llawysgrif unigryw, yn amrywio o dorlun pren o'r bymthegfed ganrif hyd at y mapiau digidol diweddaraf o'r Arolwg Ordnans.

Mae gan y Llyfrgell fapiau sydd ar bapur, memrwn, plastig, brethyn, pren a metel. Hefyd, mae gennym ddau glôb prin (mae modd gweld y rhain yn Ystafell Ddarllen y De) a hyd yn oed rai platiau argraffu copr gwreiddiol. Set o gardiau chwarae o'r ail ganrif ar bymtheg yw'r mapiau lleiaf yn y casgliad; a map maint carped o Brydain wedi ei gynllunio ar gyfer defnydd mewn ysgolion yw'r mwyaf.

Mae ffocws y casgliad ar ddeunydd a gynhyrchwyd yng Nghymru, neu ddeunydd sydd yn ymwneud â Chymru, ond mae nifer fawr o eitemau sydd yn perthyn i weddill Prydain, a hefyd i wledydd eraill, yn enwedig y gwledydd hynny sydd â gwreiddiau Celtaidd.

MAPS

With over one million maps, atlases and technical drawings the National Library of Wales has the largest cartographic collection in Wales and one of the largest in Britain. The collection has grown since the founding of the Library, through generous donations, purchases and legal deposit.

The collection includes a wide range of material, both published and unique manuscript items, from an early woodcut dating from the 15th century to the very latest digital data from the Ordnance Survey.

The Library has maps on paper, parchment, plastic, cloth, wood and metal. We also have two rare globes (these can be seen as you enter the South Reading Room) and even some original copper printing plates. The smallest maps are probably a set of 17th century playing cards; the largest is a carpet-sized map of Britain designed for use in schools.

The focus of the collection is upon material produced in or relating to Wales, but there is also a large amount of material relating to the rest of Britain and also to other countries, especially those with Celtic roots.

Saxton's Proof map of Wales, 1580 (map00005)

Dyma syniad o amrywiaeth y deunydd sydd o fewn y casgliad:

- Mapiau Arolwg Ordnans o Ynysoedd Prydain
- Mapiau hynafiaethol printiedig
- Mapiau llawysgrif o ystadau
- Mapiau degwm
- Catalogau arwerthiant ystadau
- Cynlluniau rheilffordd
- Dyluniadau pensaernïol
- Cynlluniau mwyngloddio
- Mapiau modern printiedig eraill
- Siartiau Morwrol ac Awyrennol
- Mapiau thematig

Mae'r rhan fwyaf o'r casgliad wedi ei gatalogio ar gronfa gyfrifiadurol y Llyfrgell, ac mae modd ei chwilio ar-lein – **http://cat.llgc.org.uk.** Nid yw nifer o'r cyfresi mawr o fapiau wedi cael eu rhestru yn unigol; felly bydd angen lleoli'r dalenni priodol ar fynegai cyn eu harchebu.

Mae gwerth y casgliad mapiau yn llawer mwy na chofnod topograffig: mae'n gipolwg ar dirlun cyfnewidiol dros amser, cipolwg ar fyd sydd nawr wedi ei golli, a chofnod o'r lle y bu pobl yn byw a'r modd yr oeddynt yn arfer defnyddio'r tir.

Here is an idea of the breadth of material within the collection:

- Ordnance Survey maps of the British Isles
- Antiquarian printed mapping
- Manuscript estate maps
- Tithe maps
- Estate sale catalogues
- Railway plans
- Architectural drawings
- Mining plans
- Other modern printed mapping
- Nautical and aeronautical charts
- Thematic mapping

Most of the collection has been catalogued on the Library's computerised system and can be searched online – **http://cat.llgc.org.uk**. Many of the larger map series do not have records for individual sheets and it is necessary to locate sheets on an index before ordering them.

The value of the map collection lies in more than just a topographic record: it is a snapshot of a changing landscape through time, a view of a world which is now lost and a record of the places where people lived and the way they used the land.

MAPIAU AROLWG ORDNANS O YNYSOEDD PRYDAIN

Mae'r casgliad yn cwmpasu Cymru gyfan bron ar bob graddfa a chyfnod. Mae'n cwmpasu gweddill Ynysoedd Prydain yn rhannol. Ymhlith uchafbwyntiau'r casgliad mae:

- Llungopïau o ddyluniadau'r Syrfëwr Ordnans, a gafodd eu llunio rhwng 1809 a 1840, ar raddfa dwy fodfedd i'r filltir. Rhain oedd y dyluniadau gwreiddiol, a ddefnyddiwyd i gynhyrchu argraffiad cyntaf o fapiau un fodfedd i'r filltir. Mae'r rhain ar gael ar y silffoedd agored yn Ystafell Ddarllen y De.
- Mapiau un fodfedd i'r filltir o'r map AO cynharaf o Gymru a gyhoeddwyd ym 1818 hyd at y mapiau terfynol a gynhyrchwyd ar y raddfa hon yn y 1970au.
- Mapiau sirol chwe modfedd a 25 modfedd o'r 1860au hyd at y 1950au a'r mapiau cyfwerth metrig a'u disodlodd o'r 1950au hyd at y 1990au. Mae llungopïau o'r argraffiad cyntaf a'r ail argraffiad o'r mapiau chwe modfedd ar gael ar y silffoedd agored yn Ystafell Ddarllen y De.
- Cynlluniau trefi graddfa fawr iawn o'r prif drefi yng Nghymru o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif.
- Mapiau AO modern, graddfa ganolig, o'r cyfresi *Explorer* a *Landranger*.
- Data AO digidol, cipluniau blynyddol o 1997 ymlaen o'r data AO graddfa fawr, sydd ar gael yn Ystafell Ddarllen y De.

ORDNANCE SURVEY MAPS OF THE BRITISH ISLES

The collection has almost complete coverage for Wales at all scales and at all epochs. There is also partial coverage for the rest of the British Isles. Highlights of the collection include:

- Photocopies of Ordnance Surveyor's drawings, made between 1809 and 1840, at two inches to the mile. These were the original drawings from which the first edition of the one-inch to the mile map was produced. These are available on open access in the South Reading Room.
- One-inch to the mile maps from the earliest OS map of Wales published in 1818 to the final maps produced at this scale in the 1970s.
- Six-inch and 25-inch county series mapping from the 1860s to the 1950s and the metric equivalents that replaced them from the 1950s to the 1990s. Photocopies of the 1st & 2nd editions of the six-inch maps are available on open access in the South Reading Room.
- Very large-scale town plans of all major Welsh towns from the 19th and early 20th centuries.
- Modern OS medium scale mapping from the *Explorer* and *Landranger* series.
- OS digital data, annual snapshots from 1997 onwards of the large-scale OS data, available in the reading rooms.

Cambriae typus gan Humphrey Llwyd, 1574, y map cyntaf o Gymru i'w brintio.
Humphrey Llwyd's Cambriae typus of 1574, the first printed map specifically of Wales (map00003)

MAPIAU HYNAFIAETHOL PRINTIEDIG

Mae nifer sylweddol o fapiau ac atlasau o'r bymthegfed hyd at y ddeunawfed ganrif yn y casgliad, gan gynnwys enghreifftiau o'r mapiau printiedig cynharaf i ddangos Cymru fel endid sengl a'r mapiau cyntaf o siroedd Cymru. Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys:

- Humphrey Llwyd, *Cambriae typus* o 1574, y map printiedig cynharaf o Gymru.

ANTIQUARIAN PRINTED MAPPING

There is a substantial collection of maps and atlases from the 15th to the 18th centuries, including many examples of the first printed maps to show Wales as a single entity and the first county maps of Wales. Highlights include:

- Humphrey Llwyd's *Cambriae typus* of 1574, the first map of Wales to be printed.

- Mapiau sirol o arolygon Saxton a Speed.
- Thomas Taylor, *The Principality of Wales exactly described*, a gyhoeddwyd ym 1718, yr atlas cyntaf i'w neilltuo'n llwyr i Gymru.
- William Williams, *Denbigh and Flint*, 1720.
- Emanuel Bowen, *South Wales*, 1729.
- John Evans, *North Wales*, 1795.
- George Yates, *Glamorgan*, 1799.
- Joseph Singer, *Cardiganshire*, 1803.

Mae nifer fawr o fapiau o ardaloedd tu hwnt i Gymru hefyd, gan gynnwys nifer o fapiau hynafiaethol o Lydaw.

- County maps from the surveys of Saxton and Speed.
- Thomas Taylor's *The Principality of Wales exactly described*, published in 1718, the first atlas devoted solely to Wales.
- William Williams's map of *Denbigh and Flint*, 1720.
- Emanuel Bowen's *South Wales*, 1729.
- John Evans's *North Wales*, 1795.
- George Yates's *Glamorgan*, 1799.
- Joseph Singer's *Cardiganshire*, 1803.

There are also a large number of maps of areas beyond Wales, including a number of antiquarian maps of Brittany.



Cyfrol Mapiau Stad Crosswood 3, 41v a 42r
Crosswood Map Volume 3, 41v and 42r

MAPIAU LLAWYSGRIF O YSTADAU, MAPIAU DEGWM A MAPIAU CAU TIROEDD

Mae casgliad helaeth o lawysgrifau ac archifau yn y Llyfrgell; trosglwyddwyd nifer fawr o'r eitemau cartograffig o'r casgliadau hyn i'r casgliad mapiau. Mae'r mapiau hyn yn ffynhonnell hanfodol wrth adrodd hanes datblygiad tirlun Cymru dros 300 mlynedd. Ceir casgliadau nifer o'r ystadau tiriog mawr yng Nghymru, gan gynnwys:

- Badminton (sydd yn cynnwys un o'r arolygon ystad cyflawn cynharaf sy'n bodoli ym Mhrydain)
- Tredegar
- Gogerddan
- Nanteos
- Trawsgoed
- Bute
- Castell Powis (yn cynnwys o bosibl y map cynharaf o'r Trallwng)

Yn ychwanegol at y casgliadau hyn mae nifer o fapiau ystad unigol yng nghasgliad y Llyfrgell.

Mae gan y Llyfrgell hefyd set wreiddiol o fapiau degwm, a'r siedylau sydd yn cyd-fynd â nhw; mae'r rhain yn ffynhonnell ddefnyddiol arall ar gyfer astudiaethau lleol. Mae llungopïau o'r rhain ar gael ar y silffoedd agored yn Ystafell Ddarllen y De.

Er bod y rhan fwyaf o gopïau swyddogol o ddyfarniadau cau tiroedd wedi eu lleoli mewn mannau eraill, mae casgliad ohonynt, ynghyd â'u mapiau, wedi cyrraedd y Llyfrgell yn rhan o gasgliadau eraill. Mae nifer fawr o'r rhain ar gyfer sir Drefaldwyn, ac i'w gweld

MANUSCRIPT ESTATE MAPS, TITHE MAPS AND ENCLOSURE MAPS

The National Library has a large collection of manuscripts and archives; many of the cartographic items from these collections have been transferred to the map collection. These maps are a vital source for telling the story of how the Welsh landscape developed over 300 years. There are collections from many of the great landed estates in Wales, including:

- Badminton (includes one of the earliest complete estate surveys extant in Britain)
- Tredegar
- Gogerddan
- Nanteos
- Crosswood
- Bute
- Powis Castle (includes possibly the earliest map of Welshpool)

In addition to these collections there are many individual manuscript estate maps, which have found their way to the Library.

The Library also houses a set of original tithe maps and their accompanying schedules; these are another very useful source for local studies. Photocopies of these are available on open access in the South Reading Room.

While most official copies of enclosure awards are held elsewhere, the Library does have a collection of enclosure awards with maps which have come to us as parts of other collections. Many of these cover Montgomeryshire and can be found in the Powis Castle collection. There are also a number of Cardiganshire enclosure awards

yng nghasgliad Castell Powis. Mae nifer o ddyfarniadau cau tiroedd ar gyfer sir Aberteifi i'w gweld mewn gwahanol gasgliadau, yn ogystal â rhai dyfarniadau ar gyfer siroedd eraill.

CATALOGAU ARWERTHIANT YSTADAU

Mae gan y Llyfrgell gasgliad sylweddol o fanylion arwerthwyr yn ymwneud ag eiddo ledled Cymru a'r Gororau. Mae'r rhain yn ffynhonnell ddefnyddiol arall o wybodaeth, yn arbennig ynglŷn â sut y rhannwyd yr ystadau mawr ers diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

CYNLLUNIAU RHEILFFORDD

Rhan fawr arall o'r casgliad yw'r cynlluniau rheilffordd, y rhan fwyaf ohonynt yn perthyn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, o Ogledd Ddwyrain a Chanolbarth Cymru. Maent yn cynnwys cynlluniau ac adrannau a gyhoeddwyd ar gyfer arolygaeth lywodraethol, cynlluniau manwl o osodiadau trac, cynlluniau adeiladau, pontydd, ac yn y blaen, a hyd yn oed rai cynlluniau o gerbydau. Mae'r cynlluniau hyn wedi bod yn amhrisiadwy i bobl sydd â diddordeb mewn rheilffyrdd, ac i ymchwilwyr.

DYLUNIADAU PENSAERNÏOL

Mae gan y Llyfrgell gasgliad mawr o ddyluniadau pensaernïol a thechnegol, ac mae'r casgliad yn dal i dyfu. Gan eu bod yn ddyluniadau i raddfa, maent gan fwyaf yn gyfrifoldeb i'r casgliad mapiau. Maent yn amrywio o gynlluniau ar gyfer ysgolion a thyddynnod ffermwyr, i blastai gwych, fel yr un a gynlluniwyd ond na chodwyd ar gyfer ystad Wynnstay ger Afon Dyfrdwy.

in various collections, as well as a few awards for other counties.

ESTATE SALE CATALOGUES

We have a substantial collection of auctioneers' sale particulars relating to properties throughout Wales and the Marches. These are another useful source of information, especially about the break-up of the large estates from the end of the 19th century.

RAILWAY PLANS

Another large part of the collection consists of railway plans, mostly 19th century from North East and Mid Wales. They include plans and sections published for parliamentary scrutiny, detailed plans of track layouts, plans of buildings, bridges etc. and even some plans of rolling stock. These plans have been found invaluable by railway enthusiasts and researchers.

ARCHITECTURAL DRAWINGS

The Library boasts a large and growing collection of architectural and other technical drawings. As they are scaled drawings they are mostly the responsibility of the map collection. They range from plans of schools and farmers' cottages to palatial mansions such as that planned but never built for the Wynnstay estate by the River Dee.

Casgliad James Byres, Wynnstay, rhif 6, Edrychiad o'r Blaen
James Byres, Wynnstay Collection, number 6, Elevation of the Front

CYNLLUNIAU MWYNGLODDIO

Mae cynlluniau mwyngloddio hefyd i'w gweld yn y casgliad, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn perthyn i gloddfeydd yng Ngheredigion; mae nifer o gasgliadau ystad hefyd yn cynnwys cynlluniau. Maent yn cynnwys croesdoriad o gloddfeydd ynghyd â chynlluniau tir a dyluniadau technegol o beiriannau cloddio ac adeiladau.

MAPIAU MODERN PRINTIEDIG ERAILL

Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw'r unig le yng Nghymru i ddal casgliad sylweddol o fapiau tramor. Mae'r rhan fwyaf o'r deunydd wedi dod i'r Llyfrgell o ddwy ffynhonnell. Maent yn cynnwys mapiau o'r cyn-drefedigaethau a gyhoeddwyd gan asiantaethau mapio Prydeinig, a mapiau milwrol yn dyddio'n bennaf o gyfnod yr Ail Ryfel Byd.

SIARTIAU MÔR AC AWYRENNOL

Mae gan y Llyfrgell gasgliad eang o siartiau môr hanesyddol, yn dyddio'n bennaf o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac o arfordir

MINING PLANS

A collection of mining plans, mostly relating to mines in Ceredigion, is also held, and many of the estate map collections also hold such plans. They include cross-sections of mines as well as ground plans and technical drawings of mining equipment and buildings.

OTHER MODERN PRINTED MAPPING

The National Library houses the only major collection of overseas mapping in Wales. Much of this material has come from two sources: material published by British mapping agencies for former colonies, and military mapping mostly dating from the Second World War.

NAUTICAL AND AERONAUTICAL CHARTS

There is a large collection of historical nautical charts, mostly 19th century and mainly of the Welsh coast. The collection also includes a 16th century Portolan chart and 18th century charts such as those produced

Cymru gan fwyaf. Mae'r casgliad hefyd yn cynnwys siart Portolan o'r unfed ganrif ar bymtheg, a siartiau o'r ddeunawfed ganrif fel y rhai hynny gan Lewis Morris a'i fab. Mae'r Llyfrgell hefyd yn derbyn yr holl siartiau a gynhyrchir gan yr UK Hydrographic Office drwy adnau cyfreithiol.

Mae'r Llyfrgell yn cadw nifer o siartiau awyrennol hefyd, rhai modern gan fwyaf, ond yn cynnwys rhai enghreifftiau cynnar iawn o siartiau stribed, o bob cwr o'r byd.

MAPIAU THEMATIG

Mae'r casgliad yn cynnwys gwahanol fathau o fapiau thematig, megis mapiau daearegol, mapiau defnydd tir a mapiau cynefin. Derbynnir mapiau daearegol o Brydain Fawr i'r Llyfrgell drwy adnau cyfreithiol.

Un o'r casgliadau pwysicaf yw'r ail Arolwg Defnydd Tir a Llystyfiant o Gymru, sydd yn cynnwys taflenni maes llawysgrif a chopïau teg a luniwyd ohonynt. Mae rhannau helaeth o'r rhain heb eu cyhoeddi erioed.

Casgliad gwerthfawr arall yw'r mapiau Deddf Cyllid (1910). Mapiau 25 modfedd yw'r rhain sydd yn dangos gwybodaeth am y Ddeddf Gyllid. Sir Aberteifi yw cynnwys casgliad y Llyfrgell yn bennaf.

Mae pwrcasiadau diweddar yn cynnwys mapiau oddi wrth y Comisiwn Coedwigaeth, mapiau cynefin oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru a mapiau Llywodraeth y Cynulliad sy'n ymwneud â sefydlu Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif a chynlluniau eraill.

Medrwch gael gwybodaeth bellach ynglŷn â'r mapiau sydd yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru trwy ymweld â **www.llgc.org.uk/mapiau**

by Lewis Morris and his son. The Library also receives through legal deposit all charts produced by the UK Hydrographic Office.

We also hold a number of aeronautical charts mostly modern, but including a few very early strip charts, from various parts of the world.

THEMATIC MAPPING

The collection includes many types of thematic mapping, such as geological mapping, land-use mapping and habitat mapping. Geological mapping of the UK is received through legal deposit.

One of the most important collections is the 2nd Land Use and Vegetation Survey of Wales, consisting of manuscript field sheets and fair copies drawn from them. Much of this material has never been published.

Another valuable collection is the set of Finance Act (1910) maps. These are 25-inch maps marked up to show Finance Act information. Our collection mainly covers Cardiganshire.

Recent acquisitions include mapping from the Forestry Commission, habitat mapping from the Countryside Council for Wales and Assembly Government mapping relating to the establishment of Environmentally Sensitive Areas and other schemes.

Further information regarding the maps collection held at The National Library of Wales can be found at **www.llgc.org.uk/maps**

www.llgc.org.uk
gofyn@llgc.org.uk
enquiry@llgc.org.uk
t: 01970 632800